**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru

8 Awst 2022

Annwyl Andrew,

**Penderfyniad Llywodraeth Cymru i brynu Fferm Gilestone**

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 14 Gorffennaf. Rydym ar ddeall bod staff Archwilio Cymru yn cynnal ymholiadau pellach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru dros yr haf, er mwyn cael dealltwriaeth ehangach o'r amgylchiadau a arweiniodd at y penderfyniad i brynu Gilestone Farm, gan gynnwys adolygu dogfennau ategol perthnasol. Rydym yn disgwyl y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw fanylion perthnasol pellach neu faterion sy'n peri pryder iddo.

Yn y cyfamser, mae rhai materion eraill y byddem yn gwerthfawrogi eglurder pellach yn eu cylch, sef materion penodol sy'n codi o'r dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor, a materion y tynnodd trydydd partïon sylw'r Pwyllgor atynt:

- Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau am y cymorth ariannol a ddarparwyd yn flaenorol i ŵyl y Dyn Gwyrdd a chwmnïau cysylltiedig. Darparwyd rhai amcangyfrifon bras, ond byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu dadansoddiad llawn o'r cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru dros y cyfnod a drafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gan gynnwys cyllid a ddarparwyd, o bosibl, gan Gyngor y Celfyddydau.

- Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau hefyd am y cymorth a ddarperir ar gyfer gwyliau gan Lywodraeth y DU, gan dynnu sylw penodol at wyliau Glastonbury a Notting Hill. Gwnaethoch gynnig ymchwilio i'r mater hwn a darparu rhagor o wybodaeth, os yw hynny'n bosibl. Gofynnwn i chi sicrhau bod eich ymateb yn gwahaniaethu rhwng unrhyw

gymorth a ddarperir fel rhan o fesurau ehangach sy'n ymwneud â COVID, a chymorth datblygu mwy cyffredinol.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at dystiolaeth sy'n ymwneud â'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig â gŵyl y Dyn Gwyrdd. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ddiwydrwydd dyladwy mewn perthynas â ffigurau sy'n ymwneud â'r buddion economaidd sy'n deillio o'r ŵyl bresennol, ac/neu a fydd yn gwneud hynny fel rhan o'i harfarniad o'r cynllun busnes llawn ar gyfer Fferm Gilestone?

- O ran hawliau helwriaeth, gwnaethoch nodi yn eich tystiolaeth: 'Rights of this sort apply on many properties, especially in rural areas and over large areas of land, and we are in discussions with the individual, and that was part of the process of purchasing the farm'. Mae'r Pwyllgor wedi gweld copi o lythyr a anfonwyd at y Prif Weinidog, dyddiedig 8 Gorffennaf 2022. Diben ymddangosiadol y llythyr hwnnw oedd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r hawliau helwriaeth hynny. Gellid dehongli eich tystiolaeth fel awgrym y cafwyd trafodaethau â pherchennog yr hawliau hynny fel rhan o'r broses o brynu'r eiddo, ond mae'r llythyr a anfonwyd at y Prif Weinidog yn awgrymu fel arall. Felly, rydym yn gofyn ichi gadarnhau a oeddech yn cyfeirio'n unig at y ffaith bod y mater hawliau helwriaeth wedi cael ei nodi yn ystod y broses o brynu'r eiddo, ond bod trafodaethau â pherchennog yr hawliau heb gael eu cynnal bryd hynny.

- Mae eich papur tystiolaeth yn awgrymu bod Green Man wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at Fferm Gilestone am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2022. Fodd bynnag, mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig blaenorol (WQ85337) am gyfarfodydd a gynhaliwyd mewn perthynas â Fferm Gilestone, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at gyfarfod a gynhaliwyd rhwng swyddogion ac aelodau o Ŵyl y Dyn Gwyrdd / Plant Pot Ltd ar 22 Hydref 2021. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau cwmpas y cyfarfod hwnnw, a chadarnhau a oedd Fferm Gilestone, mewn gwirionedd, eisoes yn cael ei drafod ar yr adeg honno. Rydym hefyd am gadarnhau dealltwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch sut y cafodd y rhai sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd wybodaeth ynghylch y posibilrwydd y byddai Fferm Gilestone ar gael i'w phrynu, a hynny cyn hysbysu Llywodraeth Cymru o'r ffaith hwnnw ym mis Chwefror 2022.

- Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r gweithgarwch marchnata ymddangosiadol a gynhaliwyd mewn perthynas â Fferm Gilestone ym mis Chwefror 2020 (cafodd y deunyddiau marchnata a welodd y Pwyllgor eu diweddaru ddiwethaf ym mis Chwefror 2020, yn ôl pob golwg). Roedd eich ymatebion yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd yr eiddo wedi cael ei roi ar y farchnad agored bryd hynny. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi cadarnhad pellach o hyn yn sgil eich deialog gyda'r perchennog blaenorol.

- Gwnaethom hefyd godi pryderon ynghylch addasrwydd caniatáu i gwmni masnachol sy'n cynnal gwyliau brydlesu safle Fferm Gilestone, a'r effaith amgylcheddol bosibl o wneud hynny. Er enghraifft, gwyddom fod safle Fferm Gilestone yn gartref i fywyd gwyllt gwarchodedig fel ystlumod a gylfinirod, a'i fod yn agos at Ardal Cadwraeth Arbennig. Deallir hefyd nad oes ganddo fynediad addas. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gwnaethom gyfeirio at bryderon ynghylch lefel y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn.

  Gwnaethoch ddweud y byddai Llywodraeth Cymru, drwy'r broses diwydrwydd dyladwy, yn cynnal cyfres o wiriadau manwl ar y cynllun busnes manwl a gyflwynwyd gan y Dyn Gwyrdd, ac y byddai hynny'n golygu ystyried ffactorau amgylcheddol. A fyddai modd i chi ddarparu rhagor o fanylion am y broses honno, gan gynnwys gyda phwy y byddwch yn ymgynghori, a phryd a sut y byddwch yn gwneud hynny?

Wrth i Lywodraeth Cymru arfarnu'r cynllun busnes llawn a gwneud penderfyniadau ynghylch unrhyw gytundebau a wneir yn y dyfodol â chwmnïau sy'n ymwneud â'r Dyn Gwyrdd, mae'r Pwyllgor am gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r broses honno. Mae hyn yn berthnasol hefyd wrth i'r Llywodraeth ymgysylltu ag awdurdodau perthnasol a'r gymuned leol ynghylch cynlluniau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol cyn gwneud unrhyw benderfyniad, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gynnych yn eich tystiolaeth. Rydym yn cydnabod y posibilrwydd na fydd modd rhannu manylion masnachol llawn. Serch hynny, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru nodi'n glir i'r gymuned leol gwmpas y gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cefnogi ar y safle drwy unrhyw gytundeb arfaethedig, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r safle i gefnogi Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar ei ffurf bresennol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon eich atebion i'r cwestiynau hyn atom erbyn dydd Llun 12 Medi, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor eu hystyried cyn gynted ag y bydd yn dychwelyd ar ôl toriad yr haf.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor